

## **Cyngor Cymuned Llanelian (284)**

Cofnodion cyfarfod Nos Fawrth Chwefror 14 2017 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn.

**Presennol:** Dafydd Griffiths, Thomas Jones, John Griffiths, Elfyn Hughes, Glenys Jones, Helen Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Cyng Wil Hughes, Cyng Aled Jones

**Ymddiheuriadau:** Hefina Williams, Cyng Richard Jones

**Yn bresennol:** Carli Evans Thau (Clerc)

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

### **2 Datgan Diddordeb**

Glenys Jones – Cais am arian Cylch Meithrin  
Carli Evans Thau – Cais am arian Cylch Meithrin

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Elfyn Hughes, eilio Carol Whitaker

### **4 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

#### **4.1 Materion Prifffyrdd**

Cafwyd ebost gan Mon Williams swyddog CSYM yn datgan eu bwriad i gwblhau gwaith ar lonydd yr ardal ac yn cadarnhau bod y gwaith i ail-baentio'r llinellau o flaen yr ysgol bellach wedi'w gwblhau. Cafwyd ebost pellach gan Alun Roberts yn datgan na fyddai'r Cyngor Sir yn ystyried unrhyw fesuriadau pellach y tu allan i'r ysgol i ddiogelgu plant a'u rhieni. Roedd yr aelodau yn siomedig iawn a'r ymateb ac yn bryderus iawn am ddiogelwch disgyblion yr ysgol a'u teluoedd. Fe ofynnwyd i Cyng Wil Hughes gysylltu a'r swyddogion perthnasol i drafod ymhellach.

#### **4.2 Enwau Tai**

Cytuno cysylltu a Hefina Williams i weld os oedd wedi gallu trafod y mater gyda'r Stad. Cytuno ysgrifennu at y Stad yn ffurfiol i drefnu cyfarfod arall i drafod ymhellach os nad oedd diweddariad i'w gael.

#### **4.3 Rhos Newydd**

Deallwyd nad oedd ymateb y Cyngor Cymuned i'r achos wedi ei dderbyn gan yr Arolygaeth Cynllunio. Cytuno cysylltu ag Iwan Jones, Swyddog Cynllunio CSYM am ddiweddariad ar y mater.

#### **4.4 Ceir Pengorffwysfa**

Mae'n debyg nad yw'r Adran Briffyrdd yn gallu cymryd unrhyw gamau tuag at unigolion sy'n trin ceir ar ochr y lon. Cytuno cysylltu ag Adran Gwarchod y Cyhoedd i godi ymwybyddiaeth o olew a thywod ar y ffordd yn reolaidd. Bydd Cyng Wil Hughes yn gwneud ymholiadau hefyd gan fod yr unigolyn dan sylw mae'n debyg yn denant ty Cyngor ac yn rhedeg busnes oddi yno. Mae adroddiadau bod yr ardd yn llawn darnau injan ac offer trin ceir.

Deallwyd bod archwiliad yn parhau gyda'r garafan ac mae disgwyl i'r mater gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2017. Cytuno cysylltu i ddatgan siom bod y mater yn cymryd cyn gymaint o amser i'w ddatrys a gofyn beth oedd y rheswm am hyn.

#### **4.5 Golau'r Neuadd**

Cadarnhawyd bod Barry Roberts wedi bod mewn cysylltiad ag Elfyn Hughes ac mae disgwyl iddo ddod i gwblhau'r gwaith cyn gynted a phosib.

#### **4.6 Cytundeb Clerc**

Cytuno bydd is bwyllgor (Dafydd Griffiths, Hefina Williams ac Elfyn Hughes) yn cwrdd i drafod ymhellach. Cadarnhaodd y clerc ei bod yn fodlon parhau gyda'r cytunedeb cyfredol dros dro.

#### **4.7 Hysbysfwrdd**

Cafwyd gadarnhad bod perchnogion y siop yn fodlon ar beth bynnag maint a defnydd hysbysfwrdd y dymunai'r Cyngor. Nid yw Tyddyn Mon yn gwneud y fath waith ac mae disgwyl i Gymunedau'n Gyntaf Mon ddod yn ol gyda pris o fewn yr wythnos nesaf. Cytuno gwirio'r pris gyda phawb drwy ebost/neges destun cyn symud ymlaen i'w archebu. Cytuno gwirio bod y pris hefyd yn cynnwys gosod y bwrdd.

#### **4.8 Wylfa Newydd**

Mae Cyngor Tref Amlwch yn awyddus bod cyfarfod o Bartheriaeth Cyngorau Gogledd Mon yn cael ei gynnal ddechrau Mawrth. Cadarnhawyd mae'r un pwyntiau sydd yn codi pryder sef safle gweryll, diogelwch y lon a'r pwysau ychwanegol ar / diffyg gwasanaethau meddygol.

#### **4.9 Trefniadau Bancio**

Mae ffurflenni Swansea Building Society wedi cyrraedd ac wedi'w cwblhau – dim ond angen llofnod Hefina Williams. Ymholiadau yn parhau gyda banc Barclays. Yn y cyfarmser mae ffurflenni ar gyfer bancio ar y we gyda Nat West wedi'w cwblhau.

#### **4.10 Henaduriaeth Mon**

Cydnabyddir derbyn y llythyr gan y Cyngor ond ni geir unrhyw wybodaeth pellach.

#### **4.11 Cronfa Ty Moel Isaf**

Gweler trefniadau bancio uchod. Mae disgwyl cadarnhad bydd cyfarfod gyda R Owen (Cronfa Padrig) yn yr wythnos nesaf.

#### **4.12 Swyddfa Bost**

Cafwyd wybod gan un o brif swyddogion y Swyddfa Bost eu bod yn cydweithio gyda'r gangen leol i geisio a datrys problemau staffio ar hyn o bryd. Nid oes cynlluniau i gau'r gangen. Gobeithir bydd y gangen yn ail agor yn fuan o fewn y dyddiau nesaf ac fe ymddiheurwyd am yr anghysondeb ac anhwylysdod.

#### **4.13 Meinciau**

Deallwyd mai'r Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r meinciau yma ac mai Gwyn Roberts fyddai'n gwneud yn wirfoddol tra yn glerc i'r Cyngor. Cytuno gwirio pa waith sydd angen ei wneud a chytuno gofyn i Richard Edwards eu paentio os mai dyna oedd ei angen neu i saer goed eu trwsio os oes angen. Nodwyd bod tair mainc angen sylw – Maes Llwyfo, Nebo, ger Mynwent Bosra. Cytuno edrych am bris am mainc o blastic wedi ei ailgylchu petai angen newid y meinciau.

### **5 Cynllunio**

**5.1** Ceisiadau – ni fu Ceisiadau newydd i'w ystyried.

**5.2** Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniad y Cyngor Sir fel a ganlyn:

- Erw Mor, Nebo (24C339) – Caniatad

### **6 Materion Ariannol**

#### **6.1 Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

£248.25 Swyddfa Archwiliad Cymru (Archwiliad 2015/16)

£6312.93 Richard Edwards (Cynnal a Chadw 2016)

£257.72 Cyflog Ionawr

£175.00 Aelodaeth Un Llais Cymru

## **6.2 Ceisiadau am Arian**

Daw cais am gymorth gan Gylch Meithrin Penysarn. Cafwyd mwy o wybodaeth gefndir gan Glenys Jones ond ni chymerodd ran mewn unrhyw bleidlais. Cynnigwyd bod y grwp yn cael cefnogaeth gan ofyn bod yr ysgol hefyd yn cefnogi os yn bosib. Cynnig Elfyn Hughes, eilio Thomas Jones. Cynnig cyfrannu £150 tuag at weithgareddau'r grwp. Cynnig Gordon Hayes, cefnogwyd yn unfrydol.

## **7 Gohebiaeth**

Dim nad oedd eisioes wedi'w drafod.

## **8 Unrhyw Fater Arall**

8.1 Playquest – daw cynnig gan y cwmni am gytundeb i arolygu'r offer chwarae (a osodwyd gan y cwmni) yn y cae chwarae. Nodwyd bod y pris a gynnigwyd ddwywaith pris ROSPA a bod ROSPA yn archwilio'r holl offer a'r cae chwarae yn ei gyfanrwydd.

8.2 Nodwyd pryder bod nifer o geir yn cael eu parcio ar y glaswellt ger y Bedol i'w gwerthu. Mae nifer o genin pedr wedi eu plannu yma ac mae nifer yn gyrru ar eu traws i barcio neu gweld y ceir. Cyng Aled Jones i wneud ymholiadau gyda CSYM

8.3 Treth Cyngor – cafwyd grynodedb gan Cyng Aled Jones o'r hyn mae'r Cyngor Sir wedi ei gytuno ar gyfer eu cyllideb 2017/18.

## **9 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Mawrth 14, 2017

Bu'r cyfarfod orffen am 8 o'r gloch

**Arwyddwyd**  
**Dafydd Griffiths**  
**Cadeirydd**